CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL
1 Rhagfyr 2021, Trwy Zoom 7.00yh

YN BRESENNOL: Cyng. D. Idriswyn Roberts (Cadeirydd), , N. Jones, D Gwyn, A. Mummery. A Mummery, M. Jones (Cyngor Sir). A. Le Cras (Clerc)	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Cyng. S. Hughes, Ll. Roberts. R. Williams (Cyngor Sir)
	Cydymdeimlwyd gyda N. Jones'r teulu ar eu profedigaeth o glled ei mam yng nghyfraith.
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 03/11/21. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. A.M. yn cynnig a D.G. yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Sbwriel ar y lôn gefn o Star I Gaerwen** - DG wedi gwneud cyswllt gyda'r adran gwastraff. Nodwyd os bydd problem eto dylid codi ffôn i'r adran a bydd gweithwyr glanhau ffyrdd yn dod draw.
4.2	**Ymddiswyddiad E. Williams.** Adroddodd y Cadeirydd ar ol trafodaeth mae E.W. am gymeryd egwyl 6 mis o'r Cyngor Cymuned. Hoffai dderbyn papurau ac ebyst yn ystod y cyfnod. Yr aelodau yn falch iawn o glywed fod E.W. wedi ail ystyried ei ymddiswyddiad.
4.3	**MAES CHWARAE STAR** Y Cadirydd wedi cysylltu gyda Seiriol, Medrwn Môn - arian Loteri i Bawb ar gael ar gyfer datblygu'r maes Chwarae. Y Clerc i greu cais ffurfiol, Seiriol yn fodlon helpu gyda'r gwaith. Clerc wedi cael cyswllt gyda PCSO D. Deveraux ynglyn a'r maes chware a diffyg adnoddau. Grant hefyd ar gael trwy gronfa'r Heddlu. Clerc i wneud ymholiadau pellach.
4.4	**GOR YRRU**

	Angen ail drefnu cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor Sir I drafod materion diogelwch ffyrdd yn ardal Llanfairpwll, Star a Penmynydd. Nodwyd os bydd datblygiadau i'r maes chwarae bydd mwy o blant a theuluoedd yn cerdded ar hyd y lôn lle does dim palmant. A. M a M.J I gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfod.
5.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
5.1	**Ymgynghoriad** Dim sylw.
6.0	**MATERION ARIANNOL**
7.1	**TALIADAU** Cyflog Clerc
7.0	**MATERION ERAILL**
7.1	**CYTUNDEB TORRI GWAIR** Y Clerc i dderbyn prisiau erbyn y cyfarfod mis Ionawr 2022.
8.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Elusendai **Cyswllt band eang**

Llofnod **Dyddiad**